



Llanymddyfri



Pam Cerdded?

Mae Llanymddyfri yn un o gyrchfannau mwyaf poblogaidd Sir Gaerfyrddin gan y sawl sy'n dwlu ar weithgareddau awyr agored. Mae'r dref yn fan cyfarfod poblogaidd i feicwyr, cerddwyr, canŵ-wyr a selogion beiciau modur sy'n gwerthfawrogi pa mor ddymunol yw'r dref a'r ardal wledig o'i chwmpas.



Pa mor Hir?

Mae'r daith gerdded ychydig dros 5 cilomedr (ychydig dros 3 milltir) gan ddringo 52 metr (170 troedfedd) yn unig. Caniatewch 2 awr.



Pa mor Anodd?

Mae hon yn daith gerdded gymharol hawdd dros dir gwastad y bydd y rhan fwyaf o gerddwyr yn ymdopi â hi'n gyfforddus. Mae rhannau o'r daith yn croesi caeau felly argymhellir esgidiau addas at yr awyr agored.



Man Cychwyn - Y prif faes parcio yn Llanymddyfri ger y castell.



Parcio - Prif faes parcio'r dref



Trafnidiaeth Gyhoeddus - ✓



Lluniaeth - ✓

1 Tref Llanymddyfri

Lleoliad tref Llanymddyfri ar fan pontio pwysig ar afon Tywi sy'n gyfrifol am ei tharddiad. Cafodd hyn ei gydnabod gan y Rhufeiniaid a sefydlodd gaer a chan y Normaniaid a adeiladodd y castell. Mae gan y dref hanes hir fel tref farchnad, a gwaddol dyddiau'r porthmyn yw'r tafarndai niferus sydd yn y dref.


2 Castell Llanymddyfri

Bu'r castell yn gadarnle Cymreig a Normanaidd, ac mae'r tŵr crwn neu'r gorthwr dal yno, ynghyd â wal gragen o'r drydedd ganrif ar ddeg. Dargyfeiriwyd nant fechan, Dyfri, i ffurfio ffos llawn dŵr o amgylch y castell.

#DymaSirGar

#ThisisCarmarthenshire

Mannau o ddiddordeb



- 3 Stryd Cerrig**
Codwyd Neuadd y Dref yn 1858, gyda Siambr y Cyngor uwchlaw marchnad agored. Mae Cloc y Dref ar hen Neuadd y Farchnad, a adeiladwyd degawd yn gynharach. Roedd traddodiad hir o wneud clociau yn y dref.
- 4 Nant Bawddwr**
Deillia enw Llanymddyfri o'r afon leiaf o blith y rheiny yng nghyffiniau'r dref. Roedd yn garthffos agored ar un adeg - does dim rhyfedd mai Bawddwr oedd yr enw arni bryd hynny. Yn 1836 fe'i rhoddwyd mewn cwlfert bwaog a gosodwyd wyneb ar y strydoedd.
- 5 Llinell Rheilffordd Canol Cymru**
Roedd Llanymddyfri yn ganolfan bwysig i goetsis ar y ffordd dyrpeg o Lundain (yr A40 erbyn hyn). Pan gyrhaeddodd y rheilffordd Lanymddyfri yn 1858, roedd yn ergyd farwol i fasnach y porthmyn a'r coetsis post.
- 6 Caer Rufeinig a Ffordd Rufeinig**
Mae'r llwybr troed yn dilyn rhan o'r Ffordd Rufeinig a oedd yn arwain i'r gogledd-orllewin tua'r gaer nesaf ym Mhumsaint, a warchodai'r mwngloddiau aur Rhufeinig.
- 7 Afon Tywi**
A hithau'n 120 cilometr o hyd (75 milltir), afon Tywi yw'r

afon hiraf y mae pob rhan ohoni yng Nghymru. Mae'n enwog am ei physgota Brithyll Môr (Sewin yw'r enw lleol) ac Eog. Tardda yn ucheldir Mynyddoedd y Cambria, cyn troelli drwy ddyffrynnoedd culion i wastatiroedd eang. Mae canrifoedd o lifogydd gaeafol wedi creu pridd gwaddodol ar waelod y dyffryn, gan gynhyrchu'r borfa irlas sy'n cynnal diwydiant llaeth y sir. Lifa'r afon i Fae Caerfyrddin a chwrdd â'r môr yn Lansteffan.

- 8 Y Bont Gadwyn**
Dylanwadwyd yn drwm ar ddyluniad y bont gadwyn grog wreiddiol a adeiladwyd yn 1832 gan bont grog Telford dros y Fenai. Codwyd pont newydd yn ei lle yn 1883, ond cyfeirir at y bont bresennol o hyd fel y Bont Gadwyn.
- 9 Eglwys Sant Dingat h**
Yn ôl pob tebyg, mae corff yr Eglwys a'r gangell yn dyddio o'r drydedd ganrif ar ddeg. Mae'n debygol fod y tŵr o'r bymthegfed ganrif. Awgryma'r cysegriad fynwent gynnar, cyn-Normanaid. Roedd Dingat yn un o feibion Brychan, pennaeth o dras Gwyddelig o'r cheched ganrif a sefydlodd Brycheiniog yn is-deyrnas iddo ef ei hun.